



Ysgol Eifionydd Porthmadog

Pennaeth mewn gofal / Headteacher in charge : Mr. Dewi Rhys Bowen B.Sc.
Ysgol Eifionydd • Porthmadog • Gwynedd LL49 9HS

Ffôn / Phone : (01766) 512114 Ffacs / Fax : (01766) 514785

Safle Wê:- <http://www.eifionydd.gwynedd.sch.uk>

e-bost:- cyffredinol@eifionydd.gwynedd.sch.uk

At rieni –Ysgol Eifionydd

Hydref, 2015

Eich hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol

Roedd yn arfer bod yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Cafodd y gofyniad hwnnw ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Yn lle hynny, cyflwynwyd trefniadau newydd fel y bo modd i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol, i drafod materion sy'n peri pryder iddyn nhw. Os yw rhieni am arfer eu hawliau dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, bydd angen bodloni 4 gofyniad:

1. Bydd angen i rieni gyflwyno deiseb o blaid cynnal cyfarfod

Bydd angen i rieni o leiaf 30 o ddisgyblion cofrestredig yr Ysgol lofnodi'r ddeiseb. Yn achos deiseb ar bapur, rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig, yn ogystal ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os yw'r ddeiseb yn un electronig, bydd angen i riant 'lofnodi' drwy deipio ei enw a bydd rhaid rhoi enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob rhiant sy'n 'lofnodi'r' ddeiseb electronig. Roedd 391 o blant wedi'u cofrestru gyda'r ysgol hon ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon. Gallwch gysylltu â swyddfa'r ysgol i gael gwybod yn union faint sydd ar y gofrestr ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

2. Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol

Ni ellir galw cyfarfod i drafod materion fel cynnydd disgyblion unigol, neu er mwyn gwneud cwyn yn erbyn aelod o staff yr ysgol neu aelod o'r corff llywodraethu. Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno am y mater(ion) i'w trafod, a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod. Dylid dangos yr wybodaeth honno'n glir ar frig y ddeiseb, a dylai'r rhieni lofnodi oddi tani.

3. Ceir cynnal uchafswm o 3 chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol

Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni arfer eu hawliau i ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

4. Rhaid bod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol

Mae'n amod dan y gyfraith fod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol pan fo'r ddeiseb yn dod i law, a hynny fel y bo modd cynnal y cyfarfod. Ystyr "diwrnod ysgol" yw diwrnod pan fo'r ysgol yn agored i ddisgyblion: nid yw'n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS).

Dyma'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol: **Ysgol Eifionydd, Porthmadog, Gwynedd LL49 9HS.**

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru ynghylch sut gall rhieni fynd ati i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu: <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetingsstatutory-guidance/?lang=cy>

Yn gywir

Dewi Rhys Bowenn
Pennaeth mewn gofal

Gwobr Cydnabod Ansawdd
(Gogledd Cymru a Phowys)
Recognition of Quality Award
(North Wales and Powys)

